**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr 2012**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni oedd yna ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol neu niweidiol. |
| **3** | MATERION BRYS | Nid oedd yna unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 20, 2012 i'w cymeradwyo'n gofnod cywir ac i'w harwyddo gan yr Arweinydd.* |
| **5** | CYFLAWNI SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y cynnydd gyda chyflenwi Safon Ansawdd Tai Cymru i stoc tai rhent y Cyngor i'w nodi.* |
| **6** | YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWARIANT CEFNOGI POBL A NEWID YN Y STRATEGAETH CEFNOGI POBL AR GYFER 2013 I 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y newidiadau i'r Strategaeth Cefnogi Pobl a'r Cynllun Gwariant ar gyfer 2013-14 i'w cadarnhau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.* |
| **7** | GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet i gefnogi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac aelodaeth Sir Ddinbych am gyfnod o bum mlynedd yn amodol ar yr amodau a fynegir yn 4.27 yr adroddiad.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **8** | ADRODDIAD CYLLID 2012/13 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y safle ariannol diweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd i'w nodi.* |
| **9** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *bod Blaenraglen Waith y Cabinet i'w nodi.* |
| **10** | DATBLYGIAD OCEAN PLAZA, Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) i ddarparu'r opsiwn i'r datblygwr a enwir yn yr adroddiad i gaffael y budd rhydd-ddaliad ar gyfer y safleoedd a enwir am gyfnod cyfyngedig o 18 mis i alluogi'r datblygwr i gyflwyno cais cynllunio newydd o fewn 6 mis o roi'r opsiwn ac i sicrhau ymrwymiad y deiliad i'r datblygiad o fewn gweddill y cyfnod sy'n gyfyngedig o ran amser;*<br><br>*(b) yn cymeradwyo penodiad y Prisiwr Dosbarth i gael prisiad o'r safle neu ran ohono gan adlewyrchu'n llwyr yr holl gyfyngiadau cynllunio a chyfyngiadau ffisegol presennol a'r dyfodol;*<br><br>*(c) bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn cael awdurdod dirprwyedig i ddatblygu cerrig milltir allweddol efo'r datblygwr penodol i adolygu cynnydd gyda symud y cynllun ymlaen a hynny i'w adrodd yn ôl i'r Cabinet bob chwe mis.* |
| **11** | GWASANAETHU CYFARPAR NWY STOC TAI'R CYNGOR | ***PENDERFYNWYD*** *dyfarnu'r contract tair blynedd (a dwy arall) am wasanaeth, cynnal a thrwsio systemau gwresogi nwy Cyngor Sir Ddinbych i'r contractwr dewisol fel y'i* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *nodir o fewn yr adroddiad.* |
| **12** | CAFFAEL GWAITH ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU: STRATEGAETH GAFFAEL | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r prosiect i fwrw ymlaen i'r cyfnod gweithredu i sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau sydd dros £4.35m a gwella arferion caffael adeiladu cyfredol dan y lefel honno ar draws y rhanbarth* |
| **13** | LLETY Â CHYMORTH A LLOCHES NOS TRAWS-FFINIOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn cymeradwyo estyniad y contract presennol efo Local Solutions ar gyfer gwasanaeth Llety â Chymorth Sir Ddinbych tan Fawrth 30, 2013 i ganiatáu amser i ddilyn cyd-gomisiynu'r gwasanaeth efo Cyngor Sir y Fflint;*<br><br>*(b) yn cymeradwyo sefydliad trefniant caffael ar y cyd rhwng Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint i gomisiynu gwasanaeth traws-ffiniol Tai â Chymorth a Lloches dros Nos;*<br><br>*(c) yn eithrio'r contract ar y cyd ar gyfer y gwasanaeth Tai â Chymorth a Lloches Dros Nos rhag y gofyniad i dendro;*<br><br>*(d) yn dyfarnu'r contract am y gwasanaeth hwn i Local Solutions, darparwr presennol gwasanaethau Llety â Chymorth Sir Ddinbych.* |
| **14** | STRWYTHURAU GWASANAETH: GWASANAETH PRIFFYRDD A | ***PENDERFYNWYD*** *rhoi cymeradwyaeth i –* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Rhagfyr 2012**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | SEILWAITH | *(a) fwrw ymlaen â datblygiad Opsiwn 2b – ‘integreiddiad mewnol CSDd gyda pheth cydweithredu ar lefel gwasanaeth penodedig’;*<br><br>*(b) fwrw ymlaen â’r broses o benodi ‘Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol’ ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych;*<br><br>*(c) ymgynghori’n ffurfiol â budd-ddeiliaid ar y strwythur dangosol ar gyfer Opsiwn 2b.* |